

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Mehefin 2il, 2016 yn Festri Capel Pencaenewydd.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Gwilym M Thomas, (Is gadeirydd); Dafydd Williams; Margaret Griffith; William Ifor Hughes; Naomi Jones; Trefor W Jones; Anwen Jones; Tegid Jones; Sian Angharad Parry; Ifor Wyn Davies; Aled Lloyd Evans a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau.: Y Cyngorwyr Marian Evans (Cadeirydd); Elis Gwyn Jones; Thomas Prys Jones ac Alwen Evans.

2. Croesawyd y Cyngorydd Tegid Jones fel Cyngorydd newydd i gynrychioli Ward Rhoslan ar y Cyngor ac arwyddodd y Datganiad Derbyn Swydd.

3. Arwyddwyd y Datganiad Derbyn Swydd gan yr Is gadeirydd.

4. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fai 12fed, 2016.

5. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

6. Datgan buddiant personol. Y Cyngorydd Aled Lloyd Evans yn datgan diddordeb yng nghais cynllunio Swm y Don, Afonwen, rhif 8.1 ar y rhaglen waith achos ei fod yn gymydog ac wedi siarad gyda'r ymgeisydd.

7. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Mehefin 2016. Penderfynwyd derbyn y bydd gwaith arwisgo Cricieth - Bron Eifion; Castellcoed – Y Ffôr; Llanybi – Ynys; Cadair Elwa, Llanybi; Gwynfryn, Llanystumdwy; Hen Lôn Bontfechan, Llanystumdwy a gwaith slyri ar droedffordd Cartrefle – Rhinog, Chwilog.

2. Trafnidiaeth; cyfarfod safle ynghylch Groeslon Brynrhydd, peryglon troi am Lanarmon/Llanybi wrth adael pentref Chwilog a'r ffordd rhwng Groeslon Brynrhydd a Groeslon Castellcoed. Penderfynwyd disgwyl am ymateb swyddogion y Cyngor Sir.

3. Swyddog Datblygu Iaith Gweithle; ymateb i ohebiaeth pryderon iaith. Penderfynwyd derbyn ymateb oedd yn gadarnhaol iawn.

4. Diwygio Cod Ymddygiad Aelodau. Penderfynwyd mabwysiadu'r newidiadau ac anfon copi o'r cofnod at Gyngor Gwynedd er mwyn iddo fod yn rhan o rybudd Cyngor Gwynedd fydd yn cael ei gyhoeddi mewn papur newydd sy'n ofynnol o dan adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

5. Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Ffordd Ddi-Ddosbarth ger yr eiddo a adwaenir fel Llwyn Celyn, Llanybi) (Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro) 2016. Derbyniwyd er gwybodaeth.

Trwy ganiatad y Cadeirydd*

6. Gwasanaeth bysys Arriva. Derbyniwyd er gwybodaeth y bydd Arriva yn gweithredu gwasanaeth bws ychwanegol dros gyfnod yr haf, ar drywydd rhif 3 rhwng Pwllheli a Phorthmadog gan ddefnyddio bws to agored. Ni fydd y gwasanaeth yn gwyo oddi ar y briffordd i mewn i bentrefi Abererch, Chwilog na Llanystumdwy. Bydd yr amserlen yn weithredol rhwng 03/07/16 a 03/09/16.

7. Lloches bws ger Groeslon Refail Llangybi. Daeth rhybudd bod perygl achos bod y to yn rhy isel. Penderfynwyd archebu arwydd TO ISEL/LOW ROOF a gofyn i Mr Elis Gwyn Jones ei osod.

8. Llwybr Afonwen. Mae'r canclwm Siapaniaidd yn cau ceg y llwybr yma unwaith eto. Cysylltwyd gyda'r Cyngor Sir sydd wedi anfon ymlaen at Dŵr Cymru. Dal ar gau mae'r llwybr oherwydd difrod llanw uchel dros y gaeaf; Network Rail sydd biau'r wal amddiffyn a'r tir o gwmpas, deallir y gall gymeryd hyd at ddeunaw mis iddynt hwy weithredu. Yn y cyfamser mae Cyngor Gwynedd am osod grisiau pren dros dro. Derbyniwyd.

8. Cyngor Gwynedd – 1. Cais rhif C16/0407/41/LL- Cais ar gyfer creu safle carafanau teithiol newydd 17 uned, ail leoli 2 uned statig bresennol a chodi bloc toiledau; Swm y Don, Afonwen. Ymneilltuodd y Cynghorydd Aled Lloyd Evans cyn trafod y cais. Penderfynwyd gwrthwynebu ar sail mynediad.

9. Un Llais Cymru,;

1. Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor nor Fercher Mehefin 15fed yn swyddfeydd Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon am 7pm. Derbyniwyd er gwybodaeth.

2. Cydnabyddiaeth Ariannol ar lwfansau a threuliau a dalwyd i Gynghorwyr. Mae'n ofyniad statudol i bob Cyngor gyhoeddi ac adrodd yn flynyddol i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar lwfansau a threuliau a dalwyd i gynghorwyr cymuned a thref erbyn Medi 30ain bob blwyddyn. At ddibenion tryloywder mae'r Panel hefyd yn mynnu fod cynghorau yn cyhoeddi adroddiadau DIM ar eu gwefannau/hysbysfyrddau a chyflwyno adroddiadau DIM i'r Panel. Penderfynwyd derbyn.

3. Hyfforddiant; cwrs yng Nghaernarfon, nos Iau, Mehefin 30ain, 6.30 – 9pm Modiwl 3 - Y Cyngor fel Cyflogydd. Cytunodd yr Is gadeirydd, y Cynghorydd Gwilym M Thomas i fynd ar y cwrs yma.

10. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

Chwilog;

Cais i roi manylion cysylltu Mynwent Chwilog ar safle we'r Cyngor. Cytunwyd i'r wybodaeth gael ei roi ar safle we'r Cyngor.

Pencaenewydd;

Arwydd Pencaenewydd/Llangybi yn Lodge Trallwyn. Mae'r arwydd yn fudur neu wedi rhydu. Penderfynwyd gofyn i Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd gael golwg arno; dyma'r arwydd cyntaf am Bencaenewydd. Oes posib cael arwydd arall ynghynt? Mae arwydd arall ynghynt o'r ochr arall.

Llangybi;

Cyflwr llwybr Pont Merchaid. Mae'r llwybr yma yn llwybr Dosbarth 2 a phenderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Thomas Prys Jones wneud arolwg o'r llwybr ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.

Materion Ariannol.

11. Adroddiad ariannol ar lafar. Derbyniwyd.

12. Derbyn crynodeb o gyfrifon Incwm a Gwariant y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth, 2016. Penderfynwyd derbyn adroddiad yr Archwiliwr Mewnol oedd yn fodlon iawn gyda'r cyfrifon ac yn awr gellir cwblhau'r ffurflenni priodol i'w hanfon ymlaen at yr Archwiliwr Allanol erbyn Gorffennaf 4ydd, 2016, y dyddiad archwilio. Diolchwyd i'r Clerc am ei waith.

13. Cyflog ac amodau gwaith y Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol. Cyflog presennol SCP 19 £9.551c yr awr x 30 awr x 12 mis = £3, 438.36c,. Symud i SCP 20 £9.999c yr awr (Taflen gyflog newydd o Ebrill 2016 ymlaen, copi gan y Cadeirydd a'r Is gadeirydd) x 30 awr x 12 mis =£3,599.64c, sef £3,600- codiad o £161.64c. Penderfynwyd derbyn.

Trwy ganiatad y Cadeirydd*

14. Llythyr oddi wrth drethdalwr. Roedd cais i gael gosod mainc ar y llwybr am aber yr Afon Ddwyfor yn Llanystumdwy er cof am berthynas i'r teulu. Ar ôl trafodaeth, penderfynwyd cysylltu gyda'r teulu i ddweud nad y Cyngor yma ydi perchnogion y tir dan sylw ac awgrymu eu bod yn cysylltu gyda pherchnogion y tir i gael caniatad.

15 Llythyr oddi wrth Cyllid EM ynghylch eu swyddfa ym Mhorthmadog. Roedd y llythyr yn egluro'r ail strwythuro drwy wledydd Prydain drwy ganoli mewn 13 canolfan, un ohonynt yng Nghaerdydd. Bwriadant agor canolfan Caerdydd yn 2019-20 gyda'r hyn fydd yn cyfateb i rhwng 3,500 a 3,800 o weithwyr. Byddant yn gadael Porthmadog yn 2019/20 ond byddant yn parhau i gynnig gwasanaeth cyfrwng Cymraeg i'w cwsmeriaid fel rhan o wasanaeth mwy. Penderfynwyd derbyn y llythyr.

Ymateb oedd hyn i lythyr dwyieithog anfonwyd at David Gauke, Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys yn Llundain. Yr un pryd anfonwyd llythyr Cymraeg at Alun Cairns, AS, Ysgrifennydd Cymru. Penderfynwyd anfon eto at Alun Cairns i'w atgoffa nad oedd wedi ateb y llythyr anfonwyd ato ar Fawrth 7fed, 2016.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.